# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Allerton Lodge**

**Allerton Cottage**
**Naid y March**
**Treffynnon**
**CH8 8LG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

30/08/2023

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Allerton Lodge

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Deen Care Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 19 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 23 Ionawr 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, a oedd yn canolbwyntio ar feysydd o'r gwasanaeth a nodwyd yn ystod yr arolygiad diwethaf yr oedd angen cymryd camau gweithredu â blaenoriaeth yn eu cylch. Ar yr achlysur hwn, ni wnaethom ystyried gofal a chymorth, yr amgylchedd ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn llawn.

Mae'r bobl yn hapus a chânt eu cefnogi i fyw eu bywydau fel y mynnant. Caiff lleisiau'r bobl eu clywed, a chaiff eu hannibyniaeth ei hybu. Mae'r staff gofal yn deall anghenion iechyd y bobl, a gwneir atgyfeiriadau amserol er mwyn cael cyngor ac arweiniad pan fo angen. Caiff y cartref ei gefnogi gan amrywiaeth o weithwyr iechyd proffesiynol sy'n ymweld er mwyn helpu i sicrhau bod y bobl yn cael y gofal sydd ei angen arnynt i gadw mor iach â phosibl.

Darperir y gofal gan dîm o staff brwdfrydig a chyfarwydd. Mae'r ddogfennaeth gofal yn adlewyrchu'r person sy'n cael gofal. Mae'r lefelau staffio yn ddigonol ac mae'r darparwr yn ceisio recriwtio staff newydd i weithio yn y cartref. Mae'r cartref yn darparu amgylchedd cyfforddus i'r bobl fyw ynddo sy'n ddiogel, mewn cyflwr da, ac yn diwallu eu hanghenion. Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn lân ac wedi'i addurno'n dda. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth ac yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd. Mae systemau clir ar waith i fonitro ansawdd y gofal a ddarperir, gan ddefnyddio cyfres o archwiliadau a haenau o drefniadau llywodraethu. Mae'r gan y darparwr raglen fuddsoddi barhaus / dreigl yn y gwasanaeth. Mae'r stoc bwyd yn dda, ac mae'r bobl yn mwynhau dewis o brydau bwyd a byrbrydau drwy gydol y dydd.

## Llesiant

Mae'r bobl yn cael cymorth i sicrhau eu llesiant corfforol a chymdeithasol. Mae'r bobl a pherthynas y gwnaethom siarad â nhw yn canmol y staff a rheolwyr y cartref. Gwelsom y staff yn rhoi cymorth i'r bobl yn bwyllog gydag urddas a pharch. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi'r cyfarwyddyd sydd ei angen ar y gweithwyr gofal i gefnogi'r bobl yn briodol, ond mae angen i adolygiadau o ddogfennaeth gofal y bobl gynnwys mewnbwn gan y person neu gynrychiolydd priodol. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod atgyfeiriadau yn cael eu gwneud at weithwyr gofal iechyd proffesiynol perthnasol mewn modd amserol. Gwelsom fod gan y gweithwyr gofal wybodaeth dda am anghenion y bobl a'u bod yn cyfeirio at y bobl mewn modd cadarnhaol. Roedd yn amlwg eu bod yn adnabod y bobl roeddent yn eu cefnogi yn dda. Gwelsom y bobl yn cael cymorth gan weithwyr gofal priodol mewn ffordd garedig a thyner, ac yn ôl eu pwysau eu hunain.

Mae gan y bobl ddewis a rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Gwelsom y bobl yn mwynhau'r amrywiol ardaloedd sydd ar gael i eistedd ynddynt ac yn mwynhau cwmni eraill. Gwelsom fod y staff gofal yn rhyngweithio â'r bobl mewn ffordd ystyriol a'u bod yn parchu dymuniadau'r bobl. Mae dewis ar gael o ran prydau bwyd, a dywedwyd wrthym y gall y bobl gael dewisiadau amgen os nad ydynt yn hoffi'r dewisiadau ar y fwydlen. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn gallu codi a mynd i'r gwely pryd bynnag y maent am wneud hynny, a gwelsom enghreifftiau o hynny. Mae'r darparwr yn ceisio barn y bobl sy'n byw yn Allerton Lodge a'r staff.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag achosion posibl o niwed, camdriniaeth neu esgeulustod. Mae trefniadau cadarn ar waith ar gyfer gwirio cofnodion y staff gofal. Mae'r cofnodion hyfforddiant yn dangos bod y staff gofal wedi ymgymryd â'r rhan fwyaf o'r hyfforddiant a ddarparwyd gan y cartref ac mae set gadarn o archwiliadau rheoli ar waith sy'n sicrhau y caiff unrhyw risg ei lleihau.

Mae'r cartref yn lân, yn gynnes ac yn gyfforddus ac mae'r ystafelloedd gwely wedi'u teilwra at yr unigolion. Gwelsom ddogfennaeth a oedd yn dangos bod gwaith cynnal a chadw a gwella wedi'i nodi i'w gwblhau a nodwyd bod profion electronig yn cael eu cynnal yn ystod yr arolygiad. Mae'n amlwg bod y darparwr yn buddsoddi yn y cartref.

## Gofal a Chymorth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Yn ystod ein harolygiad diwethaf, gwnaethom nodi maes i'w wella mewn perthynas â'r gofal a'r cymorth a ddarperir i'r bobl. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gwelliannau angenrheidiol wedi'u gwneud. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn cynnwys digon o fanylion a chyfarwyddiadau i'r gweithwyr gofal er mwyn iddynt ddarparu gofal a chymorth i unigolion yn briodol. Gwelsom fod y staff gofal, llawn amser a staff asiantaeth yn gwybod ac yn deall anghenion yr unigolion y maent yn eu cefnogi yn glir. Cadarnhawyd hyn gan y gweithwyr gofal y gwnaethom siarad â nhw. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt. Gwelsom fod y bobl yn edrych yn dda, yn lân a thaclus ac roeddent yn gwisgo eu sbectolau a'u dannedd gosod pan roeddent am wneud hynny. Gwnaethom siarad ag un person nad oedd wedi eillio y bore hwnnw. Dywedodd wrthym mai ei ddewis ef oedd hyn am nad oedd yn hoff o eillio tan ar ôl cinio. Gwelsom gofnodion o ofynion gofal a chymorth y bobl, megis faint o fwyd a hylif y maent wedi'u cael, a chaiff pwysau'r bobl eu cofnodi mewn amser real ar ffeiliau'r bobl. Gwnaethom siarad â pherthynas agosaf unigolyn a ddywedodd wrthym fod ei berthynas wedi magu pwysau ers cyrraedd Allerton Lodge, ei fod yn dawelach ac yn llawer mwy cyfforddus nag yr oedd cyn iddo symud i mewn. Roedd hefyd yn teimlo bod materion iechyd ei berthynas yn cael eu rheoli yn Allerton Lodge. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd rhai o gofnodion gofal iechyd y geg y bobl wedi'u cwblhau yn unol ag arfer gorau. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr am hyn a gadarnhaodd y byddent yn cael eu cwblhau mewn ffordd fwy amserol.

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod gan y gwasanaeth gynllun cyfredol a chywir ynghylch sut y darperir gofal a chymorth iddynt. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn adlewyrchu gwybodaeth a ddelir yn nogfennaeth gweithwyr proffesiynol eraill a ddelir ar ffeiliau'r bobl. Gwelsom fod y cynlluniau personol yn nodi pan fydd gweithwyr proffesiynol wedi ymweld ag unigolyn a chanlyniadau'r ymweliad hwnnw. Gwelsom fod atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud at weithwyr proffesiynol a bod dogfennaeth briodol yn cael ei chadw ar gynllun personol yr unigolion. Caiff cynlluniau personol y bobl eu hadolygu yn unol â'r rheoliadau. Fodd bynnag, mae angen i'r person neu unigolyn priodol roi mewnbwn i'r cynllun personol. Gwelsom fod yr asesiadau risg a oedd yn cael eu cadw yn ffeiliau'r bobl yn fanwl hefyd a'u bod yn rhoi cyfarwyddiadau priodol i'r staff ar sut i gefnogi'r unigolion dan sylw.

Mae gwelliant wedi'i wneud mewn perthynas â rhoi systemau diogel o ran meddyginiaethau ar waith. Gwnaethom edrych ar siartiau meddygol a gwelsom fod y rhain wedi'u cwblhau yn unol ag arfer gorau. Gwelsom fod y troli meddyginiaeth yn cael ei gloi pan na fydd yn cael ei ddefnyddio. Mae system ddiogel ar waith ar gyfer cario meddyginiaeth i'r bobl i fyny'r grisiau hefyd. Mae polisi a gweithdrefn meddyginiaeth cynhwysfawr ar waith, a gwelsom

archwiliad meddyginiaeth annibynnol a oedd wedi'i gynnal yn ddiweddar ac roedd ei ganfyddiadau yn gadarnhaol.

## Yr Amgylchedd

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Mae'r darparwr gwasanaeth wedi gwneud gwelliannau sy'n sicrhau bod y bobl yn byw mewn cartref sy'n hyrwyddo cyflawniadau eu canlyniadau personol. Mae pob rhan o'r cartref yn lân, yn groesawgar ac wedi'i haddurno'n dda. Mae digon o le i'r bobl allu dewis ble yr hoffent dreulio eu hamser ac yn ystod yr arolygiad, gwelsom y bobl yn eistedd yn y lolfa ac yn yr ardal fwyta. Gwnaethom edrych ar ddetholiad o'r ystafelloedd gwely. Nodwyd gennym eu bod yn gynnes ac yn lân a bod cyfleoedd i'r bobl eu personoli os byddant am wneud hynny. Roedd ffotograffau o'r unigolion ar rai o ddrysau ystafelloedd y bobl a oedd yn eu helpu i gyfarwyddo ac i ganfod eu ffordd o amgylch y cartref. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr am ddrysau'r ystafelloedd hynny nad oedd ganddynt ffotograffau arnynt a rhoddwyd gwybod i ni nad oedd rhai o'r bobl yn hoff o'u lluniau ac nad oeddent am eu cael ar eu drysau. Dywedodd y bobl wrthym eu bod yn hapus yn byw yn y cartref.

Gwelsom y staff yn glanhau bob dydd; roedd y cartref yn lân drwy gydol yr arolygiad. Nid oedd unrhyw beryglon amlwg yn y rhan fwyaf o'r ardaloedd cymunedol er mwyn sicrhau diogelwch y bobl, ond roedd nifer o eitemau wedi'u storio yn un o'r ystafelloedd cawod yr oedd yn rhaid i'r staff gofal eu symud cyn i unrhyw un ddefnyddio'r gawod. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr a rhoddwyd gwybod i ni eu bod yn ei chael hi'n anodd dod o hyd i leoedd i storio cyfarpar, ond y byddant yn ymchwilio i ddatrys y mater. Gwelsom fod rhai cypyrddau y gellid eu cloi yn cael eu gadael heb eu cloi. Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym y byddent yn mynd i'r afael â'r mater hwn. Dengys y cartref dystiolaeth o fuddsoddiad diweddar gan y perchnogion gan fod y dodrefn, y llawr a'r lifft grisiau yn newydd.

Gall y bobl fod yn hyderus eu bod yn byw mewn amgylchedd diogel. Mae'r brif fynedfa yn ddiogel a chadarnhawyd pwy oeddem cyn i ni gael mynd i mewn. Cedwir dogfennaeth gofal y bobl yn electronig, ac maent yn cael eu diogelu gan gyfrinair. Gwelsom gofnodion iechyd a diogelwch y cartref a gwelsom fod proses ar waith er mwyn sicrhau bod gwiriadau diogelwch wedi eu cwblhau gan gontractwyr allanol a'r tîm rheoli yn amserol. Roedd y rhain yn cynnwys gwiriadau olew, trydanol, tân a dŵr. Gwelsom fod rhwyg yn y carped yn y lolfa ond nid oedd hyn yn achosi perygl o faglu ar adeg yr arolygiad. Gwnaethom siarad â'r uwch-reolwyr am hyn a rhoddwyd gwybod i ni y bydd carped newydd yn cael ei osod. Gwnaethom hefyd edrych ar adroddiad ymweliad diwethaf yr Unigolyn Cyfrifol a oedd yn nodi bod angen newid y carped.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gan mai arolygiad â phwyslais penodol oedd hwn, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn.

Yn ystod yr arolygiad diwethaf, nodwyd gennym faes i'w wella mewn perthynas â'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu nifer priodol o staff sy'n addas ac sy'n meddu ar y wybodaeth i ddarparu'r lefelau gofal a chymorth sy'n ofynnol. Yn ystod yr arolygiad hwn, gwelsom fod y gwelliannau angenrheidiol wedi cael eu gwneud i sicrhau bod nifer priodol o staff addas a gwybodus yn y cartref. Gwnaethom siarad â'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn cael eu goruchwylio. Dengys y cofnodion o ddiwedd mis Mehefin 2023, bod pob un o'r gweithwyr gofal wedi cael eu goruchwylio. Gwnaethom siarad â'r staff gofal a ddywedodd wrthym eu bod yn cael cryn dipyn o hyfforddiant; cadarnhawyd hyn yn y cofnodion a welsom. Gwelsom hefyd fod hyfforddiant ar feysydd megis gofal y geg wedi'i drefnu ar gyfer mis Medi 2023. Gwelsom y rotas staffio a oedd yn dangos bod y lefelau staffio yn ddigonol. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod y darparwr yn ceisio recriwtio staff ar gyfer rolau yn Allerton Lodge a'i fod wedi recriwtio Rheolwr Rhanbarthol a Rheolwr Ardal. Gwnaethom edrych ar gofnodion a oedd yn dangos bod y darparwr wedi recriwtio ar gyfer y swydd cydgysylltydd gweithgareddau a'i fod yn aros i'r unigolyn ddechrau yn ei rôl. Gwelsom dystiolaeth bod y broses o recriwtio staff yn un gadarn a bod y gwiriadau angenrheidiol wedi'u cynnal ar y gweithwyr gofal. Gwelsom hefyd fod y staff gofal wedi'u cofrestru â'r corff proffesiynol priodol.

Gwelsom welliannau ym mhroses oruchwylio a llywodraethu'r Unigolyn Cyfrifol o'r gwasanaeth. Gwelsom fod yr Unigolyn Cyfrifol yn ymgymryd â'r gofynion rheoleiddiol mewn perthynas â'i ymweliadau bob tri mis. Mae adroddiad bob chwe mis y gwasanaeth ar ansawdd y gofal wedi'i gwblhau. Mae'r dogfennau hyn yn gynhwysfawr ac yn dangos bod y gwasanaeth wedi ymgynghori â rhanddeiliaid. Mae canfyddiadau'r archwiliad ar ansawdd y gofal yn agored ac yn dryloyw a cheir dadansoddiad o'r wybodaeth a gafwyd ynddo hefyd. Gwelsom fod strwythur rheoli haenog ar waith, gan gynnwys adroddiadau wythnosol gan y rheolwr, adroddiadau misol y rheolwr ardal ac adroddiadau a chyfarfodydd llywodraethu misol y mae'r Unigolyn Cyfrifol yn bresennol ynddynt. Dywedwyd wrthym y gall y rheolwyr gael gafael ar yr uwch-reolwyr yn rhwydd. Mae cyfres o archwiliadau a drefnwyd ar waith hefyd. Mae gan y darparwr gynllun gweithredu ar waith sy'n adolygu gwybodaeth am y gwasanaeth gan nifer o ffynonellau. Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith, er enghraifft ar gyfer Rheoli Heintiau, Ymatebion Gofidus, Cwympiadau a Diogelu. Gwelsom hefyd fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal bob mis.

Mae'r darparwr wedi gwella'r trefniadau ar gyfer rhoi gwybod i'r rheoleiddiwr am faterion. Rydym wedi cael hysbysiadau amserol gan y darparwr sy'n bodloni gofynion y rheoliadau.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 21 | Nid yw darparwr y gwasanaeth yn llwyddo i sicrhau bod digon o staff gofal ar ddyletswydd i gynnal gweithgareddau â'r preswylwyr, ac nid yw wedi dangos bod y bobl yn cael y gofal a'r cymorth o ansawdd cyson sydd eu hangen i ddiwallu eu hanghenion ac i hyrwyddo, diogelu a chynnal eu hiechyd a'u llesiant. | Cyflawnwyd |
| 58 | Mae'r arferion presennol ar gyfer storio, cadw cofnodion a rhoi meddyginiaeth yn dangos nad yw darparwr y gwasanaeth yn dilyn y canllawiau arferion gorau presennol ar gyfer storio a rhoi | Cyflawnwyd |

| | | |
|---|---|---|
| | meddyginiaethau. | |
| 36 | Nid yw'r darparwr wedi gwneud yn siŵr bod y staff yn cael sesiynau goruchwylio un i un bob tri mis ac nid yw'r staff wedi cael hyfforddiant i'w galluogi i ddiwallu anghenion y bobl y maent yn gofalu amdanynt mewn ffordd ddiogel. | Cyflawnwyd |
| 66 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi goruchwylio'r ffordd y caiff y gwasanaeth ei reoli'n effeithiol. | Cyflawnwyd |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 60 | Mae'r unigolyn cyfrifol wedi methu â hysbysu'r rheoleiddiwr (AGC) am ddau ddigwyddiad sy'n adroddadwy o dan Reoliad 60. | Cyflawnwyd |
| 44 | Nid yw'r darparwr wedi sicrhau nad oes peryglon yn yr adeilad ac mae angen adnewyddu lloriau rhai o'r ystafelloedd gwely. | Cyflawnwyd |
| 80 | Nid yw'r unigolyn cyfrifol wedi cwblhau adolygiad o Ansawdd y Gofal bob chwe mis. Nid yw'r adroddiad yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 06/10/2023